

## **Arolygiad Ysbyty (Dirybudd)**

Ysbyty Coffa Tywyn ac Ysbyty  
Dosbarth Dolgellau ac Abermo,  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi  
Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad:

28 a 29 Tachwedd 2017

Dyddiad cyhoeddi:

19 Mawrth 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy:

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	7
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	24
4.	Beth sydd nesaf? .....	30
5.	Sut yr ydym yn arolygu ysbytai.....	31
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	33
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	34

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod pobl Cymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn sicrhau bod profiadau cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a'r cyhoedd yn ganolog i'r hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu'n agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol ar sail yr hyn rydym yn ei weld
- Cydweithredol: rydym yn adeiladu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull o weithredu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gymesur

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Mynegi barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliannau trwy adrodd a rhannu arferion da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Bu Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yn cwblhau arolygiad dirybudd o Ysbyty Coffa Tywyn ac Ysbyty Dosbarth Dolgellau ac Abermo, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 28 a 29 Tachwedd 2017. Yn ystod yr arolygiad, ymwelwyd â'r wardiau canlynol:

Ysbyty Coffa Tywyn

- Ward Dyfi

Ysbyty Dosbarth Dolgellau ac Abermo

- Ward Cader

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, dau adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan reolwr arolygu AGIC.

Bu AGIC yn archwilio'r modd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld manylion pellach am y modd y byddwn yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, canfuom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom rywfaint o dystiolaeth nad oedd y bwrdd iechyd yn llwyr gydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn cael gofal da yn ôl pob golwg
- Y sylw a roddir i hydradu a maetheg
- Darparu gofal mewn ffordd ochelgar
- Y staff yn ymgysylltu'n dda â'r cleifion wrth roi gofal
- Aseidiadau risg cyffredinol a phenodol da
- Staff diffuant a dymunol

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y ddarpariaeth o weithgareddau un-i-un a gweithgareddau grŵp
- Gwneud amgylchedd y ward yn fwy cyfeillgar i gleifion â dementia
- Arddangos posteri Gweithio i Wella mewn mannau amlwg yn y ddwy ward
- Rheoli heintiau yn ward Dyfi
- Rheoli meddyginiaethau
- Lefelau staffio
- Arfarniadau staff

## 3. Yr hyn a ganfuom

### Cefndir y gwasanaeth

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru, sy'n darparu ystod lawn o wasanaethau sylfaenol, cymunedol ac iechyd meddwl, a gwasanaethau ysbyty aciwt i boblogaeth o tua 678,000 ar draws y chwe sir yng ngogledd Cymru (sef Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae gan y bwrdd iechyd weithlu o tuag 16,500.

Mae tair prif ysbyty (sef Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor yn Wrecsam) ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a thimau a leolir mewn cymunedau. Mae'r bwrdd iechyd hefyd yn cydgysylltu gwaith 109 o bractisau meddygon teulu a gwasanaethau GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng ngogledd Cymru.

### Ysbyty Coffa Tywyn

Adeiladwyd Ysbyty Coffa Tywyn gyda thanysgrifiadau gan y cyhoedd yn y 1920au er cof am y rhai a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Codwyd estyniad i'r ysbyty yn 2015, i ddarparu amgylchedd ward newydd a chanolfan feddygol ar gyfer y meddygon teulu lleol a'r gwasanaeth nyrzio cymunedol.

Mae'r ysbyty ei hunan yn darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Uned mân anafiadau sy'n agored rhwng 10am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener
- Clinigau meysydd golwg ac offthalmeg
- Gwasanaethau mamolaeth
- Clinig cof
- Ffisiotherapi a therapi galwedigaethol
- Podiatreg
- Clinig lymffoedema a chlinigau cleifion allanol eraill

Darperir yr holl gymorth ar gyfer rheolaeth a gwasanaethau gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ond darperir y gwasanaethau ymgynghorol, labordy a chleifion allanol gan Ysbyty Bronglais, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (ac eithrio gwasanaethau seiciatreg).

Ward gofal henoed sy'n cynnwys 16 o welyau yw Dyfi. Darperir cefnogaeth feddygol gan y feddygfa meddygon teulu rhwng 8.30am a 6.30pm. Y gwasanaeth y tu allan i oriau sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb wedyn.

Pan gynhaliwyd yr arolygiad, roedd y ward yn lletya deg o gleifion. Dywedwyd wrthym fod nifer y cleifion a dderbynnid i'r ward wedi ei gwtogi oherwydd anawsterau wrth recriwtio staff.

## **Ysbyty Dosbarth Dolgellau ac Abermo**

Agorwyd Ysbyty Dosbarth Dolgellau ac Abermo yn 1929.

Mae'r ysbyty ei hunan yn darparu'r gwasanaethau canlynol:

- Uned mân anafiadau sy'n agored rhwng 8am ac 8pm, saith diwrnod o'r wythnos
- Uned ffisiotherapi
- Uned therapi galwedigaethol
- Therapi lleferydd
- Dieteteg
- Uned famolaeth 'cartref oddi cartref'
- Adran cleifion allanol
- Cyfleusterau pelydr-X
- Gwasanaethau trin traed
- Gwasanaethau deintyddol

Mae'r ysbyty yn darparu canolfan hefyd i'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Ward sy'n cynnwys 20 o welyau yw Cader. Mae geriatregydd ymgynghorol yn darparu goruchwyliaeth feddygol dros y mwyafrif o'r gwelyau, tra rheolir nifer bach ohonynt gan feddygon teulu lleol.

Pan gynhaliwyd yr arolygiad hwn, lletyid 18 o gleifion yn y ward.



## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan fo'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd y cleifion y buom yn siarad â nhw yn ystod yr arolygiad, yn y ddwy ward, yn datgan eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth a gawsant. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig a gofalgar. Sylwom ar ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn cynorthwyo'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus.

Canfuom fod y cleifion yn rhydd i symud o gwmpas mannau o fewn y wardiau. Gwelsom y staff yn ymdrin â chleifion mewn modd digyffro a chysurol. Roedd yr amgylchedd yn y ddwy ward yn lân a chymen.

Yn ystod yr arolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i gleifion a gofalwyr gennym i gasglu eu safbwyntiau ynghylch y gwasanaethau a ddarperid. Cwblhawyd cyfanswm dri o holiaduron yn ward Cader a thri yn ward Dyfi. Buom yn siarad hefyd gyda chleifion yn y ddwy ward yn ystod yr arolygiad. Roedd y sylwadau a wnaed gan gleifion yn ward Dyfi yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r staff yn hynod o garedig a phob amser yn gyfeillgar."*

*"Mae'r staff yn gymwynasgar iawn ac yn barod i helpu yn fuan iawn os gofynnir iddyn nhw."*

Roedd y sylwadau gan gleifion yn ward Cader yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r staff yn wirioneddol gymwynasgar ac yn foneddigaidd bob amser."*

*"Mae'r staff yn foneddigaidd iawn, ac yn dda iawn gyda mi."*

## Cadw'n iach

Canfuom fod y cleifion yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio a darparu gofal iddynt eu hunain, i'r graddau yr oedd hynny'n bosibl. Fodd bynnag, nid oedd y dogfennau cynllunio gofal yn adlewyrchu hynny bob amser. Pan nad oedd cleifion yn gallu gwneud penderfyniadau drostynt eu hunain oherwydd problemau cof, canfuom yr ymgynghorid â

perthnasau'r cleifion ac yr anogid hwy i wneud penderfyniadau ynghylch darparu gofal yn unol â'r Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y ddwy ward yn hyrwyddo amseroedd bwyd gwarchoddedig. Roedd hyn yn sicrhau nad oedd dim yn tarfu'n ormodol ar gleifion yn ystod amseroedd bwyd, er mwyn sicrhau bod eu cymeriant o faeth a hylif yn ddigonol. Fodd bynnag, pan ystyrir bod hynny'n briodol, anogid perthnasau i ymweld yn ystod amseroedd bwyd, i ddarparu cefnogaeth a chymorth i'r cleifion gyda'u pryddau. Anogid perthnasau i gymryd rhan hefyd mewn agweddau eraill ar ofal y cleifion, a gweithredid cynllun Pasbort Gofalwyr<sup>1</sup> yn y wardiau.

Buom yn arsylwi ar yr amseroedd bwyd, a gwelsom y staff yn helpu'r cleifion i fwyta mewn ffordd dawel, urddasol a diffwdan, gan roi digon o amser i'r cleifion gnoi a llyncu eu bwyd. Sylwom hefyd fod y staff yn annog a chynorthwyo cleifion i fwyta yn annibynnol.

Sylwom ar ryngweithio da rhwng y staff a'r cleifion, gyda'r staff yn rhoi sylw i anghenion y cleifion mewn ffordd ochelgar a phroffesiynol. Gwelsom y staff yn treulio amser gyda'r cleifion ac yn eu hannog a'u cynorthwyo i wneud pethau drostynt eu hunain, a thrwy hynny gynnal eu hannibyniaeth. Gwelsom y staff yn cynnwys y cleifion hefyd wrth wneud penderfyniadau ynghylch gweithgareddau dyddiol. Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth a welsom o weithgareddau a drefnir ymlaen llaw yn cael eu cynnal yn y wardiau, a gwnaethom awgrymu y gellid gwneud mwy i symbylu'r cleifion.

Gweithredid y Cynllun Pili Pala<sup>2</sup> yn y ddwy ward, gan ddefnyddio'r symbol o bili pala i ddynodi'r cleifion sydd â diagnosis o dementia neu amhariad gwybyddol ac sydd arnynt angen cymorth ychwanegol neu ddull gwahanol o ddarparu gofal. Fodd bynnag, canfuom mai anghyson oedd gweithrediad y cynllun ledled y ddwy ward.

O dan y cynllun Robin<sup>3</sup> hefyd, a weithredid hefyd yn y ddwy ward, roedd gwirfoddolwyr yn ymweld â'r wardiau i dreulio amser yn siarad â'r cleifion ac i'w cael i ymgysylltu mewn gwahanol weithgareddau. Yn ogystal, roedd y wardiau wedi ymuno yn 'Ymgyrch John',<sup>4</sup>

---

<sup>1</sup> Dull yw hwn o adnabod y perthnasau a ystyrir yn brif ofalwyr y cleifion, fel y gellir eu cynorthwyo hwythau, a'u galluogi i ymweld, ar unrhyw adeg bron, i gynorthwyo gyda bwydo a gwisgo, neu er mwyn bod yn gwmni yn unig i'r claf.

<sup>2</sup> Nod y Cynllun Pili Pala yw gwella diogelwch a llesiant cleifion trwy addysgu'r staff i gynnig ymateb positif a phriodol i gleifion sydd â nam ar eu cof, ac mae'n galluogi cleifion sydd â dementia, neu sy'n ddryslud neu'n anghofus, i ddeisyf ymateb o'r fath, trwy gynnwys symbol pili pala anymwithgar yn nodiadau'r cleifion.

<sup>3</sup> <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/66609>

<sup>4</sup> <http://johnscampaign.org.uk/>

sy'n hwyluso hawliau ymweld estynedig i ofalwyr teuluol cleifion sydd â dementia mewn ysbytai yn y Deyrnas Unedig.

Ein canfyddiad oedd y gellid gwneud mwy, yn y ddwy ward, i wneud yr amgylchedd yn fwy cyfeillgar i'r rhai sy'n dioddef o ddementia ac i hybu annibyniaeth, e.e. trwy ddefnyddio arwyddion ar ffurf lluniau. Rydym wedi argymhell hefyd y dylid gosod canllawiau yn y coridor yn ward Dyfi, i hybu annibyniaeth ac i helpu cleifion sydd â phroblemau symudedd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r dogfennau cynllunio gofal adlewyrchu cyfranogiad y cleifion yn y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal eu hunain.

Gellid gwneud mwy i symbylu'r cleifion trwy ddarparu gweithgareddau un-i-un a gweithgareddau grŵp.

Dylid cymryd camau i sicrhau y gweithredir y Cynllun Pili Pala yn fwy cyson, ledled y ddwy ward.

Dylid cymryd camau i wella'r amgylchedd yn y ddwy ward, i'w gwneud yn fwy cyfeillgar i gleifion sydd â dementia ac i hybu annibyniaeth.

Dylid gosod canllawiau yn y coridor yn ward Dyfi, er mwyn hybu annibyniaeth y cleifion.

## Gofal gydag urddas

Canfuom fod y cleifion yn cael eu trin gydag urddas, parch a thosturi gan y tîm staff.

Gwelsom enghreifftiau o garedigrwydd a pharch y staff tuag at y cleifion. Sylwom ar y modd yr ymdrechai'r staff i amddiffyn preifatrwydd ac urddas y cleifion wrth eu cynorthwyo â'u hanghenion gofal personol. Roedd y cleifion yn cadarnhau bod y staff yn garedig a sensitif wrth gyflawni'r gofal.

Roedd y cleifion yn ymddangos yn unigolion a oedd yn derbyn gofal da, gan staff a oedd yn rhoi sylw penodol i'w hymddangosiad ac i'w dillad. Defnyddid logiau hylendid claf dyddiol i gynorthwyo yn hyn o beth.

Roedd yr amgylchedd yn y ddwy ward yn lân a chymen yn gyffredinol, a hynny'n ychwanegu at yr ymdeimlad yr hyrwyddid lles y cleifion.

Cymysgedd o siaradwyr Cymraeg a Saesneg oedd y staff a weithiai yn y wardiau. Roedd hynny'n caniatáu i'r cleifion drafod eu gofal a'u hanghenion cymorth yn yr iaith a ddewisent.

## Gwybodaeth i gleifion

Arddangosid gwybodaeth hybu iechyd ddwyieithog yn y wardiau ar gyfer cleifion a'u teuluoedd/gofalwyr.

Defnyddid Bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion<sup>5</sup> yn y ddwy ward. Roedd y ddau fwrdd wedi'u lleoli mewn safleoedd o'r neilltu yng nghorlan y nyrsys ac roeddent wedi eu cynllunio fel y gellid gorchuddio'r wybodaeth arnynt pan nad oeddent yn cael eu defnyddio, er mwyn diogelu cyfrinachedd y cleifion.

Gwnaethom yr awgrym y dylai'r Byrddau Ciplwg ar Statws Cleifion gynnwys manylion yr amcangyfrifon o ddyddiadau rhyddhau'r cleifion, fel y gellid cynllunio'n brydlon a sicrhau y rhyddheir cleifion yn ôl i'r gymuned yn ddiogel. Byddai hynny'n gosod cyrchnodau pendant i'r cleifion a'u teuluoedd ar gyfer cynllunio'r rhyddhau, a byddai o gymorth wrth sicrhau unrhyw gymorth a fyddai ei angen.

## Cyfathrebu'n effeithiol

Trwy gydol ein hymweliad arolygu, gwelsom y staff yn cyfathrebu yn ddigyffro ac urddasol gyda'r cleifion. Cyfeirid at y cleifion gan ddefnyddio pa bynnag enwau a ddymunai'r cleifion eu hunain. Clywid y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd calonogol a chynhwysol.

Fel y nodwyd, roedd cyfran o'r staff yn y ddwy ward yn siaradwyr Cymraeg, ac felly'n sicrhau y gallai'r cleifion gael gofal yn yr iaith a ddewisent.

Gellid trefnu gwasanaethau cyfieithu pe dymunai cleifion gyfathrebu mewn iaith ac eithrio Cymraeg neu Saesneg.

## Gofal amserol

Yn gyffredinol, canfuom fod prosesau da wedi eu sefydlu yn y ddwy ward ar gyfer asesu a chynllunio gofal.

Roedd timau'r wardiau'n cydweithio'n dda gydag aelodau eraill o'r tîm gofal iechyd amlddisgyblaethol i ddarparu gofal unigoledig i'r cleifion yn unol â'u hanghenion asesedig. Roedd prosesau cadarn wedi eu sefydlu i atgyfeirio newidiadau yn anghenion y cleifion i sylw gweithwyr proffesiynol eraill megis y nyrs arbenigol hyfywedd meinwe, y dietegydd, a'r therapydd lleferydd ac iaith.

---

<sup>5</sup> Mae'r Bwrdd Ciplwg ar Statws Cleifion yn cynnig dull eglur a chyson o arddangos gwybodaeth am gleifion o fewn wardiau ysbyty.

Canfuom fod y systemau ar gyfer cynllunio rhyddhau cleifion a oedd wedi eu sefydlu yn ddigonol yn gyffredinol, gyda chleifion yn cael eu hasesu gan weithwyr proffesiynol eraill megis ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol a gweithwyr cymdeithasol cyn gadael yr ysbyty. Fodd bynnag, canfuom fod oedi'n digwydd cyn rhyddhau rhai cleifion. Dywedwyd wrthym fod dau o'r cleifion wedi bod yn y wardiau am fwy na naw mis. Y rheswm pennaf am yr oedi yn yr achosion hyn oedd diffyg darpariaeth gofal cymdeithasol addas.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Canfuom fod y broses o gynllunio gofal yn cymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r cleifion ynglŷn â'r modd y dymument gael gofal, trwy ddefnyddio dogfennau asesu Beth sy'n Bwysig i Mi.<sup>6</sup> Fodd bynnag, canfuom mai anghyson oedd y defnydd o'r dogfennau hyn.

Wrth arsylwi, ac yn ein trafodaethau gyda'r staff, cawsom gadarnhad y cynhwysir y cleifion, a/neu eu cynrychiolwyr enwebedig, mewn penderfyniadau ynglŷn â'u hanghenion gofal beunyddiol. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, ni chofnodid hyn bob tro yn y dogfennau gofal. Dywedodd y cleifion hefyd wrthym fod y staff yn cynorthwyo ac yn darparu gofal pan oedd ei angen. Sylwom fod y staff yn annog a chynorthwyo'r cleifion i fod mor annibynnol ag yr oedd modd. Er enghraifft, gwelsom y staff yn annog cleifion i gerdded ac yn eu helpu i fwyta ac yfed yn annibynnol.

Gwelsom hefyd fod cleifion yn cael eu cynorthwyo i newid o'u dillad nos yn ystod y dydd, er mwyn cynnal eu hurddas, hybu eu hannibyniaeth, a'u cynorthwyo wrth adfer a pharatoi ar gyfer cael eu rhyddhau yn ddiogel.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cymryd camau i sicrhau y cyflawnir asesiadau Beth sy'n Bwysig i Mi, ac y cwblheir y ddogfennaeth ategol pan dderbynnir claf i'r ysbyty.

---

<sup>6</sup> Trafodaeth strwythuredig rhwng gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr gwasanaeth, i benderfynu pa bethau sydd fwyaf gwerthfawr yng ngolwg y defnyddwyr, a sut y dymunant gael gofal.

## Hawliau pobl

Gwelsom fod y staff yn darparu gofal mewn ffordd sy'n hyrwyddo ac yn amddiffyn hawliau'r cleifion.

Canfuom fod y staff yn diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion wrth gyflenwi gofal. Er enghraifft, caeid drysau ystafelloedd sengl neu'r llenni o amgylch manau gwelyau unigol pan gyflenwid y gofal.

Yn ystod yr arolygiad, roedd y drysau i mewn i ward Dyfi wedi eu cloi. Golygai hynny fod rhaid i gleifion ac ymwelwyr a oedd am ddod i mewn neu adael ofyn i aelod o'r staff ddatgloi'r drysau gyda cherdyn sweip. Nid oedd y prif ddrysau i ward Cader wedi eu cloi pan gynhaliwyd yr arolygiad.

Gwnaed atgyfeiriadau yn unol â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid<sup>7</sup> fel yr oedd yn ofynnol.

## Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd cleifion a'u cynrychiolwyr yn cael cyfleoedd i ddarparu adborth ynglŷn â'u profiad o'r gwasanaethau a ddarperid mewn trafodaethau wyneb yn wyneb â'r staff.

Roedd systemau da wedi'u sefydlu i reoli cwynion, a dywedodd y staff wrthym mai anaml iawn y byddai'r wardiau yn cael unrhyw gŵyn.

Roedd y weithdrefn ffurfiol a sefydlwyd i ymdrin â chwynion yn cydymffurfio â Gweithio i Wella<sup>8</sup> ac roedd gwybodaeth ynghylch sut i wneud cwyn ar gael yn y ddwy ward ar ffurf taflen. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylid arddangos posteri Gweithio i Wella mewn manau amlwg yn y ddwy ward er mwyn rhoi gwell amlygrwydd i'r ffordd y gall pobl fynegi unrhyw bryderon. Gwnaethom hefyd argymell y dylai fod blwch sylwadau a slipiau ymateb ar gael yn y ddwy ward i alluogi cleifion ac ymwelwyr i ddatgan eu safbwyntiau ynghylch y gwasanaeth a ddarperir.

---

<sup>7</sup> Rhan o Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 yw'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid sy'n gwneud darpariaeth i amddifadu unigolyn o'i ryddid yn gyfreithlon, mewn ysbyty neu gartref gofal, os yw hynny er budd pennaf yr unigolyn ac os gweithredu felly yw'r ffordd leiaf cyfyngol o gadw'r unigolyn yn ddiogel rhag niwed.

<sup>8</sup> Proses yw Gweithio i Wella ar gyfer ymdrin â chwynion, honiadau a digwyddiadau, y cyfeirir atynt ar y cyd fel "pryderon". Mae'r broses hon yn cynrychioli newid sylweddol yn y modd y mae'r GIG yng Nghymru yn ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith, gan gyflwyno dull sengl a chyson o raddio ac o ymchwilio i bryderon, ynghyd â gwell tryloywder a pharodrwydd i gynnwys y sawl sy'n mynegi'r pryder.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid arddangos posteri Gweithio i Wella mewn mannau amlwg yn y ddwy ward er mwyn rhoi gwell amlygrwydd i'r ffordd y gall pobl fynegi pryderon.

Dylid ystyried darparu blwch sylwadau a slipiau ymateb yn y ddwy ward i alluogi cleifion ac ymwelwyr i ddatgan eu safbwyntiau ynghylch y gwasanaeth a ddarperir.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Canfuom fod y timau staff yn y ddwy ward wedi ymrwymo i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion

Roedd cyfarpar addas ar gael ac yn cael ei ddefnyddio fel cymorth i atal cleifion rhag datblygu briwiau pwysu ac i atal cleifion rhag cwmpo.

Roedd y wardiau yn lân a chymen yn gyffredinol, a threfniadau wedi eu gwneud i atal croes-heintio.

Roedd prosesau ffurfiol wedi eu sefydlu i reoli meddyginiaethau. Canfuom, fodd bynnag, fod angen rhoi sylw i rai agweddau ar y modd y rheolir meddyginiaethau.

Roedd anghenion gofal y cleifion wedi'u hasesu gan y staff, ac roedd y staff yn monitro'r cleifion i hyrwyddo'u llesiant a'u diogelwch.

## Gofal diogel

### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod y ddwy ward wedi eu cynnal mewn cyflwr digonol a bod systemau wedi eu sefydlu i adrodd am unrhyw beryglon amgylcheddol a oedd yn galw am sylw neu waith atgyweirio. Roedd ward Dyfi, a leolid mewn estyniad cymharol newydd i Ysbyty Tywyn, yn eang a golau ac wedi ei haddurno a'i dodrefnu hyd at safon uchel. Lleolid ward Cader mewn adeilad hŷn, ac yr oedd angen adnewyddu rhai mannau ynddi.

Roedd archwiliadau clinigol ac asesiadau risg, cyffredinol a phenodol, yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o niwed i'r cleifion a'r staff.

### Atal briwiau gwasgu a difrod meinwe

Gwelsom fod y staff yn asesu'r cleifion o ran eu risg o ddatblygu difrod i'r croen oherwydd gwasgu. Cawsom gadarnhad hefyd fod y staff yn cymryd camau priodol i atal cleifion rhag datblygu briwiau gwasgu a difrod meinwe.



Edrychasom ar sampl o'r cofnodion gofal yn y ddwy ward, a gwelsom fod asesiadau risg ysgrifenedig wedi eu cwblhau trwy ddefnyddio offeryn asesu cydnabyddedig ar gyfer nyrsio. Gwelsom fod cofnodion monitro yn dangos hefyd fod croen y cleifion wedi ei archwilio'n rheolaidd am arwyddion o ddifrod gwasgu. Roedd cyfarpar addas i liniaru pwysau ar gael ac yn cael ei ddefnyddio i gynorthwyo cleifion rhag datblygu briwiau gwasgu.

Roedd y cofnodion monitro yn dangos bod cleifion wedi eu cynorthwyo neu'u hannog yn rheolaidd i amrywio'u safleoedd yn y gwely neu mewn cadair freichiau. Gwelsom y staff hefyd yn cynorthwyo ac annog y cleifion i symud o gwmpas o fewn amgylchedd y ward. Mae'n hysbys bod y ddau ymyriad nyrsio hyn yn fuddiol ar gyfer atal cleifion rhag datblygu wlsarau gwasgu.

Sylwom nad oedd cydsyniad un o'r cleifion wedi ei sicrhau a'i gofnodi yn y ffeil ofal pan dynnwyd ffotograffau o'i fannau gwasgu yn ward Cader.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid ceisio a chael cydsyniad y claf pan dynnir ffotograffau o fannau gwasgu a chofnodi'r cydsyniad hwnnw yn y ffeil ofal.

#### Atal cwmpau

Trwy archwilio sampl o ffeiliau gofal unigol, canfuom y cynhelid asesiadau er mwyn lleihau'r risg o gwmpau ac y gweithredid yn ddiymdroi o ganlyniad i'r asesiadau hynny. Fodd bynnag, canfuom fod angen cynnal yr asesiadau o'r risg o gwmpo yn fwy rheolaidd yn ward Dyfi.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cynnal asesiadau o'r risg o gwmpo yn fwy rheolaidd yn ward Dyfi.

#### Atal a rheoli heintiau

Roedd polisi cynhwysfawr ar gyfer rheoli heintiau mewn grym yn y ddwy ward, a chanfuom y cynhelid archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r polisi ac egwyddorion arferion da.

Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau tafladwy ar gael i'r staff ac yn cael ei ddefnyddio i leihau croes-heintio. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo. Sylwom hefyd fod safleoedd diheintio wedi eu gosod mewn mannau strategol ger

mynedfeydd/allanfeydd, i'w defnyddio gan y staff ac ymwelwyr er mwyn lleihau croesheintio.

Yn ward Dyfi, canfuom fod llwch ar reiliau'r llenni o amgylch rhai o'r gwelyau a thu ôl i rai o'r rheiddiaduron. Nid oedd llenni tafladwy'n cael eu defnyddio'n rheolaidd. Sylwom hefyd fod angen adolygu'r llawlyfr glanhau yn ward Dyfi a'i ddiweddarau i adlewyrchu'r ymarfer presennol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cymryd camau i sicrhau bod y staff yn ward Dyfi yn glanhau rheiliau'r llenni sydd o amgylch y gwelyau a thu ôl i'r rheiddiaduron fel rhan o'r rheolwaith arferol.

Dylid ystyried defnyddio llenni/sgriniau tafladwy o amgylch gwelyau i leihau'r risg o groes-heintio.

Dylid adolygu'r llawlyfr glanhau yn ward Dyfi a'i ddiweddarau i adlewyrchu'r ymarfer presennol.

### Maethiad a hydradu

Gwelsom fod anghenion bwyta ac yfed y cleifion yn cael eu hasesu. Gwelsom hefyd fod y staff yn cynorthwyo'r cleifion mewn ffordd urddasol a phwyllog i fwyta ac yfed.

Gwelsom fod diodydd ar gael yn hwylus a'u bod o fewn cyrraedd i'r cleifion. Fodd bynnag, dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu amrywiaeth o offer (er enghraifft, platiau o wahanol liw)<sup>9</sup> i gynorthwyo cleifion sy'n fregus yn gorfforol neu sydd ag amhariad gwybyddol i gynnal eu hannibyniaeth.

Buom yn edrych ar sampl o'r cofnodion gofal, a gwelsom y defnyddid siartiau monitro pan oedd angen, i sicrhau bod cymeriant y cleifion o faeth a hylif yn ddigonol. Fodd bynnag, canfuom fod y defnydd o'r siartiau maeth a mewnbwn ac allbwn hylif yn anghyson yn y ddwy ward.

Mae pwysau'r cleifion yn cael eu monitro'n rheolaidd, i asesu eu cyflwr maethol ac effeithiolrwydd eu gofal.

---

<sup>9</sup> Profwyd bod platiau lliw yn annog cleifion sydd â dementia i fwyta rhagor.

Buom yn arsylwi ar y prydau canol dydd yn cael eu gweini. Roedd y prydau wedi eu cyflwyno'n ddeniadol ac yn ymddangos yn flasus. Dywedodd y cleifion wrthym fod y bwyd yn dda iawn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu amrywiaeth o offer i gynorthwyo cleifion sy'n fregus yn gorfforol neu sydd ag amhariad gwybyddol i gynnal eu hannibyniaeth.

### Rheoli meddyginiaethau

Buom yn arsylwi ar y modd y rhoddid meddyginiaethau i'r cleifion, a chanfuom fod y broses yn cydymffurfio â pholisi'r bwrdd iechyd. Gwelsom fod y staff yn cyflawni'r gwaith o roi meddyginiaethau mwn ffordd bwyllog, gan gymryd amser i sicrhau y gallai'r cleifion gymryd eu meddyginiaeth heb fynd yn bryderus na chynhyrfus.

Roedd fferyllydd yn ymweld â'r wardiau ddwywaith bob wythnos i gynnal archwiliadau o'r meddyginiaethau a chynnig arweiniad a chymorth i'r staff.

Nid oedd yr un o'r cleifion a oedd yn cael gofal pan gynhaliwyd yr arolygiad yn hunan-feddyginiaethu. Dylid asesu cleifion o ran eu gallu i fod yn gyfrifol am eu meddyginiaeth eu hunain. Byddai hynny'n eu hannog i fod yn annibynnol ac yn cynnal a gwella'u sgiliau cyn eu rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty.

Canfuom fod y tymheredd yn uchel yn yr ystafell driniaeth a ddefnyddid i storio meddyginiaethau yn ward Cader. Canfuom hefyd nad oedd tymereddau'r oergell yn ward Cader yn cael eu monitro a'u cofnodi'n ddyddiol. Rhaid cymryd camau i sicrhau y caiff meddyginiaethau eu stori'n briodol o fewn y paramedrau tymheredd a bennir yng nghanllawiau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a chan wneuthurwyr y meddyginiaethau.

Yn y ddwy ward, canfuom na cheid gwared yn brydlon o feddyginiaethau nad oeddid yn eu defnyddio mwyach (gan gynnwys rhai cyffuriau a reolir).

Canfuom fod ocsigen yn cael ei roi i glaf yn ward Dyfi er nad oedd hynny wedi ei bresgripsiynu yn ffurfiol.

Canfuom fod angen gwirio cynnwys y troli ataliad y galon yn ward Cader yn rheolaidd, i sicrhau bod yr holl gyfarpar sydd arni yn gweithio a bod y cyffuriau ar gael ac o fewn dyddiadau defnyddiadwy terfynol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid asesu cleifion o ran eu gallu i fod yn gyfrifol am eu meddyginiaeth eu hunain. Byddai hynny'n eu hannibynol ac yn cynnal a gwella'u sgiliau cyn eu rhyddhau'n ddiogel o'r ysbyty.

Rhaid cymryd camau i sicrhau y caiff meddyginiaethau eu stori'n briodol o fewn y paramedrau tymheredd a bennir yng nghanllawiau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a chan wneuthurwyr y meddyginiaethau.

Rhaid cael gwared yn brydlon o feddyginiaethau nas defnyddir mwyach.

Rhaid peidio â rhoi ocsigen oni fydd hynny wedi ei bresgripsiynu.

Dylid gwirio'r troli ataliad y galon yn ward Cader yn rheolaidd, i sicrhau bod yr holl gyfarpar sydd arno yn gweithio a bod y cyffuriau ar gael ac o fewn y dyddiadau defnyddiadwy terfynol.

### Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Roedd polisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig wedi eu mabwysiadu ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant priodol yn y pwnc hwn.

Dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw faterion diogelu cyfredol yn y naill ward na'r llall ar yr adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

### Rheoli gwaed

Dywedwyd wrthym fod y staff yn ward Cader yn rhoi trallwysladau gwaed. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym y byddai o fudd iddo gael hyfforddiant pellach mewn trallwyslo gwaed.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant digonol mewn trallwyslo gwaed, er mwyn sicrhau a chynnal cymhwysedd a diogelu'r cleifion.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth o gydweithio amlddisgyblaethol rhwng y staff nyrsio a'r staff meddygol. Cynhelid clinigau ymgynghorol yn ward Cader unwaith bob mis neu chwe wythnos, ac mae'r meddygon teulu yn cynnal rowndiau o'r ward ar ddyddiau Llun, Iau a Gwener. Dywedwyd wrthym, fodd bynnag, er mai ward a reolir gan feddygon teulu yw ward Dyfi, nad oedd y meddygon yn ymweld ac eithrio pan ofynnai'r staff iddynt ymweld. Teimlid y gallai'r meddygon teulu fod yn fwy rhagweithiol yn hyn o beth, trwy gynnal rowndiau ward rheolaidd.

Canfuom fod proses effeithiol wedi ei sefydlu ar gyfer trosglwyddo gofal rhwng sifftiau'r staff. Golygai fod mecanwaith yn bodoli i rannu gwybodaeth berthnasol am ofal a diogelwch pob un o'r cleifion.

O fewn y sampl o gofnodon gofal cleifion yr edrychasom arnynt, gwelsom nifer o offerynnau asesu cleifion wedi eu cwblhau, a oedd yn seiliedig ar ganllawiau proffesiynol arferion gorau a mentrau cenedlaethol. Diben y rhain oedd helpu'r staff i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd yr enghreifftiau a welsom yn cynnwys rhai ynghylch atal briwiau gwasgu a sicrhau maethiad digonol.

Defnyddid offerynnau asesu poen yn y ddwy ward. Yn ward Dyfi, fodd bynnag, canfuwyd bylchau mewn rhai o'r cofnodion.

Gwelsom hefyd fod bwndeli gofal a oedd yn gysylltiedig â'r system Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol<sup>10</sup> yn cael eu cyflawni, fel dull strwythuredig o wella'r prosesau gofal a'r canlyniadau i'r cleifion ynghylch atal wserau gwasgu, sicrhau maethiad digonol, ac adnabod cleifion a oedd mewn perygl o ddirywio oherwydd salwch aciwt neu sepsis.

Ein canfyddiad cyffredinol oedd bod systemau a phrosesau da wedi eu sefydlu ar gyfer cynllunio gofal. Canfuom fod y cynllunio gofal yn cymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r cleifion ynghylch y math o ofal y dymument ei gael. Fodd bynnag, nid oedd y gwerthusiadau cynnydd dyddiol bob amser yn adlewyrchu cryfderau ac anghenion y cleifion fel y manylid arnynt yn y cynlluniau gofal.

---

<sup>10</sup> System genedlaethol yw Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol ar gyfer adnabod y cleifion gwael iawn hynny y mae'u cyflwr yn dirywio ac sydd arnynt angen gofal meddygol neu ofal nyrsio dwysach.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r bwrdd iechyd annog meddygon teulu i fod yn fwy rhagweithiol yn eu cefnogaeth i gleifion yn ward Dyfi.

Rhaid cymryd camau i sicrhau y diwedderir offerynnau asesu poen yn rheolaidd ac mewn modd cyson.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth gadarn wedi ei sefydlu yn y ddwy ward, ac roedd y staff yn gyffredinol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion manwl gywir a chynnal cyfrinachedd.

Trwy archwilio'r cofnodion hyfforddiant, cawsom gadarnhad fod y staff wedi cael hyfforddiant mewn llywodraethu gwybodaeth.

Dywedwyd wrthym fod gwaith ar droed i ddatblygu system rheoli cofnodion electronig ar gyfer ei defnyddio ledled y bwrdd iechyd.

## Cadw cofnodion

Edrychasom ar sampl o nodiadau gofal y cleifion, a chanfuom eu bod wedi eu cynnal yn dda yn gyffredinol. Gwelsom fod cynorthwyr gofal iechyd wedi cwblhau nodiadau gwerthuso yn ward Cader. Fodd bynnag, nid oedd y cofnodion hynny bob amser wedi eu cydlofnodi gan y nyrsys cofrestredig.

Roedd y ffeiliau gofal yn ward Cader yn drefnus. Fodd bynnag, roedd y ffeiliau gofal yn ward Dyfi yn anhrefnus ac anodd eu tramwyo.

Fel y nodwyd eisoes, roedd hanesion cymdeithasol a dewisiadau'r cleifion yn cael eu canfod a'u cofnodi yn y dogfennau Beth sy'n Bwysig i Mi.

Canfuom fod rheolwyr y wardiau yn cynnal archwiliadau misol o'r cofnodion gofal, i wirio'u cywirdeb a'u hymlyniad wrth bolisïau a gweithdrefnau'r bwrdd iechyd.

Cedwid pob gwybodaeth o'r golwg yn ward Dyfi, i ddiogelu ei chyfrinachedd. Fodd bynnag, rydym wedi tynnu sylw at yr angen i gadw'r trolïau sy'n cynnwys nodiadau'r cleifion yn ward Cader o dan glo pan nas defnyddir, er mwyn cynnal cyfrinachedd.

## Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i nyrsys cofrestredig gydlofnodi pan fo cynorthwyr gofal iechyd wedi cwblhau nodiadau gwerthuso gofal.

Ad-drefnu'r ffeiliau gofal yn ward Dyfi, i'w gwneud yn haws eu tramwyo.

Sicrhau y cedwir y trolïau sy'n cynnwys nodiadau'r cleifion yn ward Cader o dan glo pan nas defnyddir, er mwyn cynnal cyfrinachedd.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Yn gyffredinol, canfuom fod rheolaeth ac arweinyddiaeth ar lefel y ward yn dda, gyda'r staff yn cyfeirio'n gadarnhaol at y gefnogaeth gânt gan reolwyr y wardiau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol yn bodoli. Dywedodd y staff wrthym hefyd eu bod yn gyfarwydd â strwythur uwch-reoli'r sefydliad a bod y cyfathrebu rhwng uwch-reolwyr a'r staff yn effeithiol yn gyffredinol.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Canfuom fod y systemau a phrosesau wedi eu diffinio'n eglur i sicrhau bod y bwrdd iechyd yn canolbwyntio ar wella'i wasanaethau yn barhaus. Cyflawnwyd hynny'n rhannol trwy gyfrwng rhaglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig, a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o'r staff i gyfarfod yn rheolaidd i drafod canlyniadau clinigol a oedd yn gysylltiedig â gofal cleifion.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Canfuom dimau staff cyfeillgar a phroffesiynol yn y ddwy ward, a oedd yn ymddangos wedi ymrwymo i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion. Gallai'r staff ddisgrifio'u swyddogaethau ac yr oeddent yn wybodus ynghylch anghenion gofal y cleifion yr oeddent yn gyfrifol amdanynt.

Buom yn edrych ar gopiâu o'r rota staff, a oedd yn dangos bod gan y staff ar bob sifft cymysgedd dda o wahanol sgiliau. Gallai'r nifer o staff a oedd ar ddyletswydd amrywio o sifft i sifft, a chymerid i ystyriaeth y cleifion yr oedd arnynt angen cymorth neu oruchwyliaeth un-i-un.

Dywedwyd wrthym fod y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio staff nyrsio. Fodd bynnag, mae recriwtio'n parhau'n anodd yn y cyd-destun cenedlaethol presennol o brinder nyrsys, ac yn galw am fentro dramor i chwilio am nyrsys cofrestredig.



Yn ystod ein harolygiad, dosbarthwyd holiaduron AGIC i'r staff a oedd yn gweithio yn y ddwy ward er mwyn darganfod rhagor am yr amodau gwaith a deall safbwyntiau aelodau o'r staff ynglŷn ag ansawdd y gofal a ddarperir i'r cleifion, yn y ward neu yn eu hadran.

Dychwelwyd cyfanswm o bedwar holiadur cyflawn gan staff a oedd yn gweithio yn ward Cader a phum holiadur cyflawn gan staff o ward Dyfi. Roedd y staff a lenwodd yr holiaduron yn cyflawni ystod o wahanol swyddogaethau yn y wardiau ac wedi bod yn gweithio yn yr ysbyty am gyfnodau yn amrywio o ychydig fisoedd i fwy nag 20 mlynedd.

## **Eich datblygiad proffesiynol**

Yn yr holiaduron, roedd pob un o'r staff yn nodi eu bod wedi cwblhau ystod eang o hyfforddiant neu ddysgu a datblygu wrth weithio yn yr ysbyty. Yr unig hyfforddiant y dywedodd y rhan fwyaf o'r staff yn ward Cader wrthym nad oeddent wedi ei gwblhau yn y 12 mis blaenorol oedd hyfforddiant ynghylch dementia/deliriwm.

Dywedodd pob aelod o'r staff a gwblhaodd holiadur, ar wahân i un o ward Cader, fod yr hyfforddiant neu'r dysgu a datblygu a gwblhawyd yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol, yn eu helpu i gadw mewn cysylltiad â'r gofynion proffesiynol diweddaraf, a phob amser yn sicrhau eu bod yn darparu gwell profiad i'r cleifion.

Dywedodd pump o'r staff a lenwodd holiadur yn ward Dyfi, a dau yn unig o'r pedwar yn ward Cader, eu bod wedi cael arfarniad, adolygiad blynyddol neu adolygiad datblygiadol o'u gwaith yn ystod y 12 mis blaenorol. Pan nodwyd anghenion hyfforddiant neu anghenion dysgu a datblygiad yn y cyfarfodydd hyn, dywedodd y staff wrthym yn yr holiaduron fod eu rheolwr wedi eu cynorthwyo i ddiwallu'r anghenion hyn.

Canfuom, yn ystod ein trafodaethau gyda'r staff, fod prosesau da o oruchwylio a chefnogi'r staff yn digwydd o ddydd i ddydd yn anffurfiol yn y ddwy ward. Fodd bynnag, roedd pwysau ychwanegol ar reolwyr y wardiau wedi peri bod prosesau cynorthwyo, goruchwylio ac arfarnu ffurfiol wedi eu hepgor yn ddiweddar. Digwyddodd hyn yn rhannol oherwydd y bu'n rhaid i'r rheolwyr ymgymryd â'r unedau mân anafiadau yn y ddau ysbyty, a gwneud gwaith cyflenwi yn y wardiau hefyd oherwydd y diffyg staff. Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r lefelau staffio yn y ddwy ward a chymryd camau i sicrhau y cânt eu staffio'n ddigonol trwy gydol yr amser, a sicrhau hefyd bod rheolwyr y wardiau yn cael yr amser a'r gefnogaeth angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau gweinyddol a rheolwrol.

## **Gofal cleifion**

Yn yr holiaduron, cyflwynwyd nifer o osodiadau i'r staff ynglŷn â gofal cleifion, a gofynnwyd iddynt bennu sgôr i ddynodi pa mor aml yr oedd y gosodiadau yn wir ym mhrofiad y staff. Roedd y rhan fwyaf o'r staff a lenwodd holiadur yn cytuno yn gyffredinol fod preifatrwydd ac urddas y cleifion yn cael eu cynnal, fod annibyniaeth y claf yn cael ei hybu bob amser, a bod y cleifion a/neu eu perthnasau yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch eu gofal.

Roedd staff o'r ddwy ward yn nodi yn yr holiaduron nad oeddent yn llwyddo i ymdopi bob amser â'r holl alwadau croes ar eu hamser yn eu gwaith, a dywedasant wrthym nad oes digon o staff yn y sefydliad ar adegau i'w galluogi i wneud eu gwaith yn briodol.

Rhoddodd aelod o staff ward Dyfi yr adborth canlynol yn yr holiadur ynghylch yr adnoddau yn yr ysbyty:

*“Rhaid i'r rheolwr uniongyrchol yn aml aberthu diwrnodau rheoli i helpu yn y ward neu gyflenwi yn yr uned mân anafiadau.”*

Roedd aelodau o'r staff yn y ddwy ward yn teimlo bod ganddynt, fel arfer, ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau a chyfarpar i wneud eu gwaith. Dywedodd mwyafrif o'r staff a lenwodd holiadur eu bod yn teimlo y gallent bob amser wneud awgrymiadau i wella gwaith y tîm neu'r adran, a dywedasant eu bod bob amser yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau ynghylch newidiadau a fyddai'n effeithio ar eu maes gwaith, tîm neu adran.

Roedd mwyafrif o'r staff, yn y ddwy ward, yn teimlo eu bod fel arfer, neu bob amser, yn fodlon ar ansawdd y gofal a roddent i'r cleifion.

## **Eich sefydliad**

Gofynnwyd i'r staff yn yr holiaduron roi sgôr i ba mor aml yr oedd nifer o osodiadau mewn perthynas â'u sefydliad yn wir yn eu profiad nhw. Dywedodd y rhan fwyaf o'r aelodau o'r staff a atebodd y cwestiynau hyn, yn y ddwy ward, fod y sefydliad fel arfer yn gefnogol, ond ni thybient fod gan weithwyr proffesiynol, sy'n ymdrin â chleifion, y pŵer i godi llais a gweithredu pan fo materion yn codi sy'n cyffwrdd â gofynion eu hymddygiad a'u cymhwysedd proffesiynol eu hunain.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff, yn y ddwy ward, a atebodd y gyfres hon o gwestiynau yn yr holiadur yn credu bod y bwrdd iechyd yn cael mynediad at yr wybodaeth gywir ar gyfer monitro ansawdd y gofal ar draws yr holl ymyriadau clinigol a gweithredu'n ddi-oed pan ganfyddir gwendidau, a bod diwylliant o ddiffuantrwydd a pharodrwydd i ddysgu o fewn y bwrdd iechyd sy'n cefnogi staff sy'n tynnu sylw at broblemau ac yn eu datrys.

Dywedodd tri o'r pedwar aelod staff yn ward Cader a phedwar o'r pump yn ward Dyfi a lenwodd holiadur fod y sefydliad bob amser yn annog gwaith tîm.

Roedd pob un o'r staff yn ward Cader a pob un ond un yn ward Dyfi a lenwodd holiadur yn cytuno'n gryf mai gofal y cleifion yw blaenoriaeth uchaf y sefydliad, ac yn cytuno bod y sefydliad yn gweithredu ar bryderon a godir gan gleifion. Roedd yr aelodau o'r staff a lenwodd yr holiadur yn cytuno hefyd y byddent yn cymeradwyo'r sefydliad fel lle i weithio ynddo, ac y byddent yn fodlon ar ofal o'r safon a ddarperir gan y sefydliad pe bai angen triniaeth ar gyfaill neu berthynas iddynt.

Darparwyd y sylwadau canlynol ynglŷn â'r sefydliad yn yr holiaduron gan aelodau o'r staff yn ward Dyfi:

*“Mae’r gymuned leol mor ffodus i gael lle tebyg i hwn, lle y gwyddant y bydd rhywun yn gofalu am eu hanwyliaid mewn ffordd urddasol a charedig.”*

*“Mae’r ysbyty hwn wedi bod y agos i’r calon i erioed; rydym yn cydweithio’n agos fel tîm i roi gofal a chymorth i gleifion. Rwyf bob amser yn ceisio rhoi 100%.”*

## **Mesurau profiad cleifion / defnyddwyr gwasanaeth**

Roedd mwyafrif o aelodau’r staff a lenwodd holiadur, yn y ddwy ward, yn gwybod y cesglid adborth am brofiad y cleifion yn eu cyfarwyddiaeth neu’u hadran nhw. Dywedodd yr aelodau o’r staff hefyd eu bod wedi cael diweddariadau rheolaidd ynglŷn â’r adborth ar brofiad cleifion, ac y credent fod yr adborth hwnnw yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus o fewn eu cyfarwyddiaeth neu adran.

## **Eich rheolwr uniongyrchol**

Yn yr holiadur, gofynnwyd cwestiynau i’r staff am eu rheolwr uniongyrchol, ac yr oedd yr adborth a gafwyd yn gadarnhaol iawn. Roedd pob aelod o’r staff, yn y ddwy ward, yn cytuno bod eu rheolwr bob amser yn annog y rhai sy’n gweithio oddi tano i gydweithio fel tîm, a bod eu rheolwr yn gefnogol bob amser mewn unrhyw argyfwng personol.

Yn yr holiaduron, dywedodd pob aelod o’r staff, ac eithrio un yn ward Cader, fod eu rheolwr bob amser yn rhoi adborth eglur iddynt ynglŷn â’u gwaith, yn gofyn eu barn bob amser cyn gwneud penderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu gwaith, ac y gellid dibynnu arno i’w helpu gydag unrhyw dasg anodd yn y gwaith.

Darparodd un aelod o’r staff yn ward Cader yr adborth canlynol yn yr holiadur ynglŷn â’i reolwr:

*“Mae fy rheolwr ward wedi f’ysbrydoli i gyrraedd fy nodau; mae’n fy symbylu yn ddieithriad ac yn gymwynasgar bob amser. Mae hi eisoes wedi gwneud llawer o newidiadau er gwell yn y ward, ac yn edrych i wella eto, ac mae hi bob amser yn ystyried y staff yn y penderfyniad.”*

Darparodd un aelod o’r staff yn ward Dyfi yr adborth canlynol yn yr holiadur ynglŷn â’i reolwr:

*“Mae perthynas waith da gyda’ch rheolwr yn bwysig i mi ac, ar ddiwedd y dydd, gwybod hefyd y bydd yr unigolyn hwnnw bob amser yno os bydd angen ichi ofyn iddo am gymorth neu gefnogaeth.”*

## **Uwch-reolwyr**

Dywedodd pob aelod o’r staff yn y ddwy ward a lenwodd holiadur y gwyddent bob amser pwy oedd yr uwch-reolwyr yn y sefydliad. Roedd dau o’r pedwar o aelodau’r staff yn ward

Cader a lenwodd holiadur yn tybio bod gan yr uwch-reolwyr bob amser ymrwymiad i'r gwaith o ofalu am y cleifion.

Roedd y staff yn y ddwy ward yn teimlo bod y cyfathrebu, yn gyffredinol, yn effeithiol rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff, ond nad oedd yr uwch-reolwyr bob amser yn cynnwys y staff mewn penderfyniadau pwysig nac yn gweithredu ar adborth gan y staff.

Dywedodd mwyafrif o'r aelodau o'r staff a lenwodd holiadur y rhoddwyd gwybod iddynt am y Safonau Iechyd a Gofal diwygiedig a gyflwynwyd yn Ebrill 2015.

## **Eich iechyd, llesiant a diogelwch wrth eich gwaith**

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r staff a oeddent yn cytuno ynteu'n anghytuno bod eu swydd, yn gyffredinol, yn llesol i'w hiechyd. Cymysg oedd ymateb y staff yn ward Cader, ond roedd pob un o'r pump yn ward Dyfi yn cytuno ei bod yn llesol. Gwnaeth un o'r aelodau yn ward Dyfi y sylw canlynol:

*“Rwyf wedi bod yn gweithio yma ers llawer blwyddyn, a byddaf yn teimlo'n falch bob amser pan fydd unrhyw un o'r cleifion yn diolch yn arbennig i mi neu i unrhyw un o'm cydweithwyr. Mae'n rhoi hwb i'ch morâl wrth wynebu diwrnod caled arall.”*

Gwnaeth un aelod o ward Cader y sylw canlynol yn yr holiadur:

*“Mae'n achosi straen weithiau oherwydd y prinderau staff.”*

Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno bod eu rheolwr uniongyrchol yn cymryd diddordeb cadarnhaol yn eu hiechyd a'u llesiant, ond nid oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r gosodiad bod eu sefydliad yn gweithredu'n gadarnhaol ynglŷn ag iechyd a llesiant.

Yn yr holiaduron, dywedodd pob un o'r staff yn ward Dyfi nad oeddent wedi sylwi ar unrhyw wallau, digwyddiadau 'trwch blewyn' na digwyddiadau gwirioneddol yn ystod y mis blaenorol a allai fod wedi niweidio'r staff neu'r cleifion. Fodd bynnag, dywedodd staff yn ward Cader wrthym, yn yr holiaduron, eu bod wedi gweld gwallau, digwyddiadau 'trwch blewyn' neu ddigwyddiadau gwirioneddol yn ystod y mis blaenorol a allai fod wedi niweidio cleifion. Adroddwyd am bob digwyddiad o'r fath naill ai gan yr aelod o'r staff neu gan ei gydweithiwr. Mewn cysylltiad â'r cwestiwn hwn, gwnaeth un aelod o staff ward Cader y sylw canlynol:

*“Gwallau / digwyddiadau trwch blewyn meddyginiaethol.”*

Roedd mwyafrif o'r staff a lenwodd holiadur yn cytuno bod eu sefydliad yn eu hannog i adrodd am unrhyw wallau, digwyddiadau 'trwch blewyn' neu ddigwyddiadau gwirioneddol, ac yn cytuno y byddai'r sefydliad, pan adroddid amdanynt, yn cymryd camau i sicrhau na fyddent yn digwydd drachefn. Gwelsom dystiolaeth ddogfennol, ar ffurf adroddiadau perfformiad, yn cadarnhau y tynnwyd sylw at wallau meddyginiaeth ac y deliwyd â'r mater yn briodol.

Roedd y staff yn ward Cader a lenwodd holiadur yn cytuno yn gyffredinol fod y sefydliad yn ymdrin yn deg â staff sy'n gysylltiedig â gwall, digwyddiad 'trwch blewyn' neu ddigwyddiad gwirioneddol, ac y byddai'r sefydliad hefyd yn ymdrin yn gyfrinachol ag unrhyw wall, digwyddiad 'trwch blewyn' neu ddigwyddiad gwirioneddol yr adroddid amdano, ac na fyddai'n beio nac yn cosbi neb sy'n gysylltiedig. Fodd bynnag, nid oedd y staff yn ward Dyfi yn sicr a yw'r sefydliad yn trin staff sy'n gysylltiedig â gwall, digwyddiad 'trwch blewyn' neu ddigwyddiad gwirioneddol yn deg. Ac er bod staff Dyfi hefyd yn credu y byddai'r sefydliad yn trin yn gyfrinachol unrhyw wall, digwyddiad 'trwch blewyn' neu ddigwyddiad gwirioneddol yr adroddid amdano, nid oeddent yn sicr a fyddai'r sefydliad yn beio neu'n cosbi'r bobl sy'n gysylltiedig ai peidio.

Yn yr holiaduron, dywedodd y staff o'r ddwy ward wrthym eu bod yn cael gwybod am wallau, digwyddiadau 'trwch blewyn' neu ddigwyddiadau gwirioneddol sy'n digwydd yn y sefydliad ac yn cael adborth ynglŷn â'r newidiadau a wneir fel ymateb i ddigwyddiadau o'r fath.

## **Codi pryderon ynghylch arferion clinigol anniogel**

Dywedodd pob un o'r pum aelod o'r staff yn ward Dyfi a lenwodd holiadur, a dau o'r pedwar yn ward Cader, y byddent, pe bai ganddynt bryder ynghylch arfer clinigol anniogel, yn gwybod sut i adrodd am hynny. Dywedodd y rhan fwyaf o'r staff a lenwodd holiadur y byddent yn teimlo'n ddiogel yn codi pryderon ynghylch arfer clinigol anniogel. Fodd bynnag, dim ond un aelod o'r staff yn ward Cader oedd yn teimlo'n hyderus y byddai'r sefydliad yn rhoi sylw i'w bryderon.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a lenwodd holiadur yn teimlo bod eu sefydliad yn gweithredu'n deg mewn perthynas â dyrchafiadau neu ddilyniant gyrfaol, heb ystyried materion fel cefndir ethnig, rhyw, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd nac oedran.

Roedd yr atebion a roddwyd gan y staff yn yr holiaduron yn awgrymu nad oedd yr aelodau o'r staff, yn bersonol, wedi dioddef unrhyw gamwahaniaethu yn eu gwaith oddi wrth gleifion nac oddi wrth eu rheolwr, arweinydd tîm neu unrhyw gydweithiwr arall.

Nodwedd bositif, trwy gydol yr arolygiad ac yn y sesiwn adborth, oedd y derbyniad ystyriol a roddwyd gan y staff yn y ddwy ward i'n safbwyntiau, canfyddiadau ac argymhellion ni.

### **Yr hyn y mae angen ei wella**

Dylai'r bwrdd iechyd barhau i fonitro'r lefelau staffio yn y ddwy ward, gweithredu i sicrhau y bydd y wardiau'n cael eu staffio'n ddigonol bob amser, a sicrhau y caiff rheolwyr y wardiau ddigon o amser ynghyd â'r gefnogaeth angenrheidiol i gyflawni eu cyfrifoldebau gweinyddol a rheolwrol.

## 4. Beth sydd nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion, lle'r ydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws meysydd eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut yr ydym yn arolygu ysbytai

Mae gennym amrywiaeth o ddulliau ar gael i ni pan fyddwn yn arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad un ward trylwyr: rydym yn cynnal adolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad aml-ward: rydym yn ymweld â nifer o wardiau ac adrannau ar un safle ysbyty i nodi materion neu themâu a allai fod yn berthnasol i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad aml-ysbyty: rydym yn ymweld â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd i asesu llywodraethiad a darpariaeth gwasanaethau cyfan

Mae arolygiadau o ysbytai yn ddirybudd fel rheol. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd gan fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd y maent yn gweithredu fel rheol. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Caiff adborth ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel sy'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal mewn ysbytai.

Ceir rhagor o fanylion am [sut y mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni chanfuwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			



## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Ysbyty:** Ysbyty Coffa Tywyn ac Ysbyty Dosbarth Dolgellau ac Abermo

**Ward/adran:** Ward Dyfi a Ward Cader

**Dyddiad yr arolygiad:** 28 a 29 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau sydd i'w cyflawni ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras)**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: Ysbyty Coffa Tywyn ac Ysbyty Dosbarth

Dolgellau ac Abermo

Ward/Adran: Ward Dyfi a Ward Cader

Dyddiad yr arolygiad: 28 a 29 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai cyfranogiad cleifion at y gwaith o gynllunio a darparu eu gofal eu hunain gael ei adlewyrchu yn y dogfennau cynllunio gofal.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae dogfennau newydd wedi cael eu cyflwyno sy'n cynnwys y templed 'Yr Hyn sy'n Bwysig'. Defnyddir y ddogfen hon i ganfod yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a pha ganlyniadau yr hoffent eu cyflawni, a bydd y rhain yn llywio sylfaen y cynllun gofal yn ei dro.  Mae'r gyfradd gwblhau yn cael ei	Rheolwr y Ward	Ebrill 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		monitro'n fisol.		
Gwelsom y gellid gwneud mwy i ysgogi cleifion drwy ddarparu gweithgareddau un i un a gweithgareddau grŵp.		Mae gweithwyr cymorth dementia wedi cael eu cyflogi yn Ysbyty Tywyn ac mae Ysbyty Dolgellau yn mynd drwy'r broses benodi.	Metron	Mawrth 2018
Dylid cymryd mesurau i sicrhau bod y Cynllun Pili Pala yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws y ddwy ward.		Bydd hyn yn rhan o gyfrifoldeb y gweithiwr cymorth dementia.	Rheolwr y Ward	Ebrill 2018
Dylid cymryd mesurau i wella'r amgylchedd ar y ddwy ward er mwyn eu gwneud yn fwy addas i gleifion â dementia ac i ysgogi annibyniaeth.		<p>Mae archwiliad amgylcheddol o'r ddwy ward wedi cael ei gwblhau ac mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni'r newidiadau canlynol a argymhellwyd:</p> <p>Gosod rheiliau llaw yn Ysbyty Tywyn</p> <p>Arwyddion ac addurniadau yn Ysbyty Dolgellau</p> <p>Gosod unedau golau dydd LED ar hyd y prif goridor</p> <p>Cwblhau ystafell weithgareddau</p>	Metron, yr Adran Ystadau, a'r Gweinyddwr	Mehefin 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		dementia yn Ysbyty Dolgellau		
Dylid gosod rheiliau llaw yn y coridor ar Ward Dyfi er mwyn hybu annibyniaeth cleifion.		Fel yr uchod	Adran Ystadau	Mai 2018
Dylid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod asesiadau Yr Hyn sy'n Bwysig i Fi yn cael eu cynnal, a bod y dogfennau ategol yn cael eu cwblhau pan fydd cleifion yn cael eu derbyn.	6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth	Mae dogfennau newydd wedi cael eu cyflwyno sy'n cynnwys y templed 'Yr Hyn sy'n Bwysig'. Defnyddir y ddogfen hon i ganfod yr hyn sy'n bwysig i'r unigolyn a pha ganlyniadau yr hoffent eu cyflawni, a bydd y rhain yn llywio sylfaen y cynllun gofal yn ei dro.  Mae'r gyfradd gwblhau yn cael ei monitro'n fisol.	Rheolwr y Ward	Ebrill 2018
Dylai posterï Gweithio i Wella gael eu gosod mewn mannau amlwg ar y ddwy ward er mwyn tynnu rhagor o sylw at sut y gall pobl godi pryderon.	6.3 Gwranddo a dysgu o adborth	Cwblhawyd		
Dylid ystyried darparu blwch sylwadau a slipiau ymateb ar y ddwy ward er mwyn caniatáu i		Mae archeb wedi'i gyflwyno ar gyfer blychau cardiau sylwadau ar gyfer y	Metron	Mawrth 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gleifion ac ymwelwyr fynegi eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir.		ddau ysbyty.		
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>				
Dylid ceisio cydsyniad cleifion a chofnodi hwn yn y ffeil ofal pan fydd ffotograffau o'u manau gwasgu yn cael eu cymryd.	2.2 Atal briwiau gwasgu a niwed i feinwe	Bydd y fetron yn trafod y mater hwn gyda'r staff yn ystod cyfarfodydd y tîm.	Metron	Ebrill 2018
Dylid cynnal asesiadau perygl cwmpiadau yn fwy rheolaidd ar Ward Dyfi a dylai croesau diogelwch cwmpiadau gael eu cwblhau yn unol â'r canllawiau presennol.	2.3 Atal cwmpiadau	Adolygir hwn bob mis fel rhan o archwiliad ansawdd ward i fwrdd.  Cynhelir adolygiadau gan gymheiriaid bob chwarter ac mae'r ardal yn sefydlu grŵp cwmpiadau cymunedol.	Rheolwr y Ward	Ebrill 2018
Dylid cymryd mesurau i sicrhau bod y staff ar Ward Dyfi yn glanhau rheiliau llenni gwelyau yn rheolaidd, a'r manau y tu ôl i'r rheiddiaduron.	2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio	Mae glanhau rheiliau llenni gwelyau wedi'i gynnwys yn yr asesiadau C4C, a gynhelir bob mis.  Rheiddiaduron – mae hyn wedi'i gynnwys yn rhaglen flynyddol yr adran ystadau, ac fe'i gweithredwyd yn dilyn ymweliad AGIC.	Ystadau a Chyfleusterau	Ebrill 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid ystyried defnyddio llenni/sgriniau tafladwy o amgylch gwelyau i leihau'r perygl o groes-heintio.		Mae adolygiad o faterion atal heintiau yn Nhywyn dros y 12 mis diwethaf wedi dangos na dderbyniwyd unrhyw cleifion yr oedd angen eu hynysu. Mae hefyd chwech o ystafelloedd sengl ar gael os bydd claf heintus yn cael ei dderbyn.  Gofynnwyd hefyd am gyngor gan yr uwch-nyrs atal heintiau.	Metron	Mawrth 2018
Dylai'r llawlyfr glanhau ar Ward Dyfi gael ei adolygu a'i ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r arfer gorau.		Mae'r bwrdd iechyd wedi gweithredu'r rhaglen Gofal Glân a Diogel, 90 diwrnod o hyd, gyda llawlyfr glanhau newydd.	Dirprwy Bennaeth Nyrsio	Mawrth 2018
Dylai'r bwrdd iechyd ystyried darparu amrywiaeth o offer i gynorthwyo'r cleifion hynny sy'n eiddil yn gorfforol neu'r rhai hynny â nam gwybyddol i gynnal eu hannibyniaeth.	2.5 Maetheg a hydradiad	Mae amrywiaeth o offer ar gael ac mae cais wedi cael ei wneud am ragor o gyngor gan yr adrannau therapi galwedigaethol a deieteg.	Metron	Mawrth 2018
Dylid asesu gallu cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu meddyginiaeth eu hunain. Byddai hyn yn annog annibyniaeth ac yn cynnal a gwella sgiliau cyn rhyddhau cleifion yn ddiogel o'r	2.6 Rheoli meddyginiaethau	Trafodwyd hyn fel tîm ardal ac mae polisi ar waith eisoes. Fodd bynnag, ystyrir mai dim ond nifer fach o unigolion a fydd yn cael eu hasesu bod ganddynt	Metron	Mai 2018

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
ysbyty.		y galluedd i gyflawni hyn. Mae cyngor ac arweiniad wedi'u ceisio gan y nyrs rheoli meddyginiaethau.		
Mae'n rhaid cymryd mesurau i sicrhau bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n briodol ac o fewn y paramedrau tymheredd a amlinellir yng nghanllawiau'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol a chan gwneuthurwr y feddyginiaeth.		Cwblhawyd yn Ysbyty Dolgellau. Mae'r opsiynau sydd ar gael yn cael eu trafod gyda'r tîm ystadau.	Metron ac Adran Ystadau	Mawrth 2018
Mae'n rhaid cael gwarded ar feddyginiaeth nad yw'n cael ei defnyddio bellach mewn modd amserol.		Cwblhawyd	Fferyllfa	
Dylid ond rhoi ocsigen pan fo hwnnw wedi cael ei ragnodi.		Anfonwyd memorandwm at arweinydd y clwstwr meddygon teulu i atgoffa meddygon teulu i ragnodi ocsigen.	Metron	Chwefror 2018
Dylai cynnwys troli ataliad y galon ar Ward Cader gael ei wirio'n rheolaidd i sicrhau bod yr holl offer yn gweithio a bod cyffuriau ar gael ac o fewn eu dyddiadau cadw.		Cwblhawyd		

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid sicrhau bod yr holl staff yn derbyn digon o hyfforddiant ynghylch trallwysiad gwaed er mwyn sicrhau a chynnal cymhwysedd a diogelwch cleifion.	2.8 Rheoli gwaed	Gwnaeth aelodau staff yn Ysbyty Tywyn fynd i hyfforddiant yn Ysbyty Bronglais ar 13 Chwefror 2018 ac mae hyn yn cael ei drefnu ar gyfer staff Ysbyty Dolgellau.	Rheolwr y Ward	Ebrill 2018
Dylai'r bwrdd iechyd annog meddygon teulu i fod yn fwy rhagweithiol o ran eu cefnogaeth ar gyfer cleifion ar Ward Dyfi.	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol		Arweinydd y clwstwr meddygon teulu	Ebrill 2018
Mae'n rhaid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod dulliau asesu poen yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ac yn gyson.		Caiff hyn ei fonitro bob mis drwy archwiliadau ward i fwrdd.	Rheolwr y Ward	Ebrill 2018
<p>Mae'n rhaid i nyrsys cofrestredig gydlofnodi pan fydd cynorthwywyr gofal iechyd wedi cwblhau nodiadau gwerthuso gofal.</p> <p>Dylid aildrefnu'r ffeiliau gofal ar Ward Dyfi er mwyn eu gwneud yn haws i'w defnyddio.</p>	3.5 Cadw cofnodion	<p>Mae'r fetron yn trafod ac yn atgoffa'r ddau reolwr ward fod angen i'r holl gofnodion gael eu cydlofnodi.</p> <p>Bydd rheolwr y ward yn adolygu'r ffeiliau gyda'r fetron.</p>	Metron	Mawrth 2018



Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid sicrhau bod y trolïau sy'n cynnwys nodiadau achos cleifion ar Ward Cader yn cael eu cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio er mwyn cynnal cyfrinachedd.		Cwblhawyd		Ionawr 2018
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>				
Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i fonitro lefelau staffio ar y ddwy ward a chymryd camau i sicrhau bod digonedd o staff ar y wardiau ar bob adeg, a rhaid iddo sicrhau bod rheolwyr y wardiau yn cael digon o amser a chymorth angenrheidiol er mwyn cyflawni eu cyfrifoldebau gweinyddol a rheoli.	7.1 Y gweithlu	Mae adolygiad o staffio mewn ysbytai cymunedol yn cael ei arwain gan y Cyfarwyddwr Ardal ar gyfer Gofal Clinigol. Bydd paramedrau penodol yn cael eu datblygu a fydd yn cynnwys amser rheoli ar gyfer rheolwr y ward. Bydd adolygiad o'r sefydliad staffio yn cael ei gynnal ar gyfer y ddau safle.	Y Cyfarwyddwr Ardal ar gyfer Gofal Clinigol	Mai 2018

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):**Lowri Welnitschuk

**Swydd:** Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio – Gorllewin

**Dyddiad:** 20.03.2018